

# Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2028: materion i ymgynghori ymhellach arnynt ar ôl y penderfyniadau cychwynnol

Trosolwg



Mae pedwar corff cyllido addysg uwch y DU (CCAUC, Ymchwil Lloegr, Cyngor Cyllido yr Alban, ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon) yn cyhoeddi penderfyniadau allweddol ynghylch dyluniad lefel uchel yr ymarfer asesu ymchwil nesaf, ac yn amlinellu materion i ymgynghori ymhellach arnynt. Mae'r penderfyniadau hyn yn cynrychioli newid tuag at ddull ehangach a mwy cyfannol o asesu ymchwil.

Cynhelir yr arolwg hwn gan Ymchwil Lloegr (rhan o UKRI) ar ran pedwar corff cyllido'r DU. Er hwylustod, mae'r arolwg ar gael ar ffurf PDF y gellir ei lawrlwytho (gweler isod).

Gweler y ddogfen lawn ar y penderfyniadau cychwynnol, yr atodiadau a'r dogfennau ategol: <https://www.jisc.ac.uk/future-research-assessment-programme/initial-decisions> <<https://gbr01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.jisc.ac.uk%2Ffuture-research-assessment-programme%2Finitial-decisions&data=05%7C01%7CNatascha.Klein%40re.ukri.org%7C4c75d2e575b74ce1a43608db6c1f049d%7C8bb7e08edaa44a8e927efca38db04b7e%7C0%7C0%7C6382>>

Yn dilyn cyhoeddi'r penderfyniadau cychwynnol hyn, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu'r canllawiau a'r meini prawf manylach. Mae'r arolwg hwn yn gofyn am eich sylwadau ynghylch agweddau penodol ar bolisi. Gweler Atodiad A y ddogfen penderfyniadau cychwynnol am fanylion.

## Manylion Personol

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried gan fyrdau (neu bwyllgorau cyfatebol) y cyrff cyllido ar ddiwedd 2023. Cyhoeddir penderfyniadau pellach ynghylch dyluniad lefel uchel REF 2028 yn nhymor y gaeaf 2023.

Byddwn yn ymrwmo i ddarllen, cofnodi a dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad hwn mewn modd cyson. Am resymau'n ymwneud ag ymarferoldeb, crynodeb teg a chytbwys o'r ymatebion, yn hytrach na'r ymatebion unigol eu hunain, fydd yn llywio unrhyw benderfyniad a wneir. Gan amlaf, bydd rhinweddau'r dadleuon a wneir yn cael mwy o sylw na'r nifer o weithiau y caiff yr un pwynt ei fynegi. Mae'r cyrff cyllido yn cadw'r hawl i roi ystyriaeth i natur yr ymatebydd wrth bwysoli'r gwaith dadansoddi.

Gellir datgelu'r holl ymatebion ar gais, o dan delerau'r Deddfau Rhyddid Gwybodaeth sy'n berthnasol ar draws y DU. Mae'r Deddfau'n rhoi hawl i'r cyhoedd gael mynediad i unrhyw wybodaeth a ddelir gan awdurdod cyhoeddus. Pedwar corff cyllido'r DU yw'r awdurdodau cyhoeddus yn yr achos hwn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriad. Mae'n gyfrifoldeb arnom i benderfynu a ddylid rhannu unrhyw ymatebion, gan gynnwys eich manylion personol, â'r cyhoedd neu eu trin yn gyfrinachol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwn wrthod datgelu gwybodaeth. Mae hyn yn golygu bod ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn annhebygol o gael eu trin yn gyfrinachol, ac eithrio mewn amgylchiadau neilltuoel iawn. Am ragor o wybodaeth am y Deddfau, gweler gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, <https://ico.org.uk/> neu, yn yr Alban, gwefan Comisiynydd Gwybodaeth yr Alban, <https://www.itpublicknowledge.info/home/ScottishInformationCommissioner.aspx> <<https://gbr01.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fwww.itpublicknowledge.info%2Fhome%2FScottishInformationCommissioner.aspx&data=05%7C01%7CNatascha.Klein%40re.ukri.org%7C96fc5abd>>.

### 1 Beth yw eich enw?

Enw (Anghenrheidiol)

### 2 Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

E-bost (Anghenrheidiol)

### 3 Beth yw enw eich sefydliad?

Sefydliad (Anghenrheidiol)

#### 4 Ydych chi'n ateb ar ran eich sefydliad neu fel unigolyn?

(*Angenrheidiol*)

*Dewiswch un ateb yn unig*

- Unigol
- Ar ran y Sefydliad

#### Mesur Maint

Mae'r cyrff cyllido'n cynnig tynnu data staff yn uniongyrchol o HESA i fesur maint, gan ddefnyddio cyfartaledd y staff CALI dros flynyddoedd academaidd 25/26 a 26/27 (cynhaliwyd peilot o hyn ym mlwyddyn academaidd 24/25) (Atodiad A, paragraffau 4-7).

#### 5 Pa heriau ymarferol y gallai sefydliadau eu hwynebu wrth weithredu'r newidiadau hyn?

#### 6 Sut y gallai'r cyrff cyllido liniaru'r heriau hyn?

#### 7 Beth fyddai effaith yr newidiadau hyn ar ymchwilwyr unigol, ac yn enwedig y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau tangynrychioliedig eraill?

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics> <<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>>

#### Cyflwyno Cynnyrch

Mae'r cyrff cyllido yn cynnig torri'r cysylltiad yn llwyr rhwng aelodau unigol o staff a chyflwyniadau uned (Atodiad A, paragraffau 12-18).

**8** Pa effaith fyddai'r newidiadau hyn yn ei chael ar ymchwilwyr unigol, yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchoddedig neu grwpiau tangynrychioledig eraill?

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics> <<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>>

**9** Pa effaith fyddai'r newidiadau hyn yn ei chael ar sefydliadau wrth baratoi i gyflwyno cynnyrch? Er enghraifft, pa ganlyniadau anfwriadol a allai gael eu creu yn sgil caniatáu cyflwyno cynnyrch gan rai ar gontractau anacademaidd neu addysgu yn unig?

**10** A ddylai gwaith wedi'i ysgrifennu gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd unigol fod yn gymwys i'w gyflwyno? Os felly, a ddylai hyn gynnwys traethodau doethuriaeth?

**11** Beth fyddai'n ddangosyddion priodol ar gyfer cysylltiad dangosadwy a sylweddol â'r sefydliad sy'n cyflwyno?

**12** A yw'r trefniadau a gynigir ar gyfer cynnyrch gan gyd-awduron yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi cydweithio a sicrhau bod y gwaith asesu'n canolbwyntio ar waith yr uned?

**13** A oes unrhyw agweddau pellach y dylid eu hystyried yn gysylltiedig â gwaith gan gyd-awduron?

#### Astudiaethau Achos Effaith

Mae'r cyrff cyllido yn cynnig lleihau'r isafswm o astudiaethau achos effaith gofynnol i un. Maent hefyd yn cynnig diwygio'r terfynau, gan gynnwys rhannu'r terfyn isaf yn ddwy (Atodiad A, paragraff 33-37). Mae'r cyrff cyllido yn arbennig o awyddus i glywed barn sefydliadau ag unedau bach.

**14** Beth fydd effaith lleihau'r isafswm i un?

**15** Beth fydd effaith diwygio'r trothwyon rhwng gofynion astudiaethau achos?

**16** I ba raddau ydych chi'n cefnogi pwysoli'r datganiad effaith ar raddfa symudol yn gymesur â nifer yr astudiaethau achos a gyflwynwyd?

#### Unedau Asesu

Mae'r cyrff cyllido yn cynnig cadw strwythur Unedau Asesu REF 2021 (Atodiad B). Mae'r cyrff cyllido'n gofyn am safbwyntiau gan gymunedau a sefydliadau disgyblu ynghylch unrhyw ddatblygiadau disgyblaethol ers REF 2021 a fyddai'n golygu bod angen newid y strwythur Unedau Asesu.

**17** Os yw'r strwythur Unedau Asesu yn berthnasol i chi/i'ch sefydliad, nodwch yn glir unrhyw newidiadau rydych chi'n eu cynnig i'r strwythur Unedau Asesu, gan roi rhesymau am hynny ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich cynnig.

### Effaith pandemig Covid-19

Mae'r cyrff cyllido yn bwriadu cadw'r datganiadau ar effaith Covid a ddefnyddiwyd yn REF 2021, a'i gwneud yn ofynnol i ystyried sut yr ymdriniwyd ag effeithiau Covid wrth ddethol cynnyrch, yn rhan o'r Codau Ymarfer.

**18** Beth yw eich barn ynghylch y mesurau a gynigir i roi ystyriaeth i effaith pandemig Covid?

**19** Pa fesurau eraill y dylai'r cyrff cyllido eu hystyried er mwyn rhoi ystyriaeth i effaith pandemig Covid?

### Cymraeg yn CCAUC

Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol Cymru. Mae CCAUC yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cydnabod rôl bwysig addysg uwch (AU) er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru am Gymru ddwyieithog.

**20** Pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol a gaiff y cynigion ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**21** A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?